



DIOGELWCH RHAG TÂN YN Y CARTREF



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**
South Wales
Fire and Rescue Service



**Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL



**AMDDIFFYNWCH EICH
CARTREF GYDA
LARWM
MWG**





Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref

A oeddech chi'n gwybod?

- Rydych ddwywaith yn fwy tebygol o farw mewn tân os nad oes genych larwm mwg sy'n gweithio.
- Mae 18 o bobl yn marw bob blwyddyn oherwydd nad oedd y batri yn eu larwm mwg yn gweithio neu nad oedd batri wedi ei roi yn y larwm.
- Mae dros hanner y tanau mewn cartrefi yn cael eu hachosi gan ddamweiniau coginio.
- Caiff tri thân y dydd eu cychwyn gan ganhwyllau.
- Bob tridiau mae rhywun yn marw mewn tân a achoswyd gan sigarét.
- Mae offer trydan diffygiol (dyfeisiau, gwifrau a socedi sydd wedi eu gorlwytho) yn achosi nifer o danau mewn tai ledled y wlad bob blwyddyn.

Sut i wneud yn siŵr bod eich larwm mwg yn gweithio

Profwch y batris yn eich larwm mwg bob wythnos. Newidiwch nhw bob blwyddyn. Peidiwch byth â'u tynnu allan.


- Peidiwch byth â datgysylltu'r batris neu eu tynnu allan o'r larwm os yw'n canu ar ddamwain.
- Y larymau safonol sy'n gweithio ar fatris yw'r opsiwn rhataf, ond mae angen newid y batris bob blwyddyn.
- Mae llawer o bobl yn anghofio profi'r batris, felly gorau i gyd os defnyddiwch fatris ag oes hir.
- Larwm â batris deng mlynedd yw'r dewis gorau.
- Caiff larymau sy'n gweithio â thrydan eu pweru gan y cyflenwad trydan i'ch cartref. Yn gyffredinol, ni fydd angen batris

arnynt ond rhaid i drydanwr cymwysedig eu gosod.

- Mae larymau sy'n cael eu plygio i mewn i soced golau yn defnyddio batris y gellir eu hailwefru ac mae hyn yn digwydd pan mae'r golau ynghyn.
- Gallwch hyd yn oed osod larymau wedi eu cyplysu, fel y bydd y cyfan yn canu os digwydd i un larwm synhwyro tân. Mae hyn yn ddefnyddiol os ydych yn byw mewn tŷ mawr neu ar sawl llawr.

Mae larymau golau strôb a larymau pad dirgrynol ar gael ar gyfer pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Cysylltwch â Llinell Wybodaeth Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar ar **0808 808 0123**.

Awgrym da



Profwch y larwm

Gofalu am eich larwm mwg


- Gwnewch profi eich larwm mwg yn rhan o'r drefn reolaidd yn eich cartref.
- Profwch y larwm drwy bwyso ar y botwm nes i'r larwm seinio. Os nad yw'n seinio, mae angen i chi newid y batri.
- Os yw eich larwm mwg yn dechrau pipian yn rheolaidd, mae angen i chi newid y batri ar unwaith.
- Os oes gennych larwm deng mlynedd, bydd angen i chi newid y larwm cyfan bob deng mlynedd.

Offer arall y gallech eu hystyried:


- Defnyddir blancedi tân i ddiffodd tân neu i'w lapio o amgylch rhywun y mae ei ddillad ar dân. Y gegin yw'r lle gorau i'w cadw.
- Mae diffoddwyr tân yn saethu chwistrelliad allan i helpu i reoli'r tân. Maent yn gyflym ac yn hawdd i'w defnyddio, ond darllenwch y cyfarwyddiadau yn gyntaf.



**Profwch y
larwm**



**Newidiwch y
batri**



**Rhowch un
newydd yn ei le**

Yn y gegin

Sut i goginio'n ddiogel

Peidiwch â gadael plant yn y gegin ar eu pen eu hunain pan rydych yn coginio ar yr hob. Cadwch fatsis a dolenni sosbenni allan o'u cyrraedd.

- Byddwch yn arbennig o ofalus os oes angen i chi adael y gegin tra'n coginio, tynnwch y sosbenni oddi ar y gwres neu throwch y gwres i lawr er mwyn atal risg.
- Gwnewch yn siŵr nad yw dolenni sosbenni'n troi am allan - fel nad ydynt yn cael eu taro oddi ar y ffwrn.
- Cymerwch ofal os ydych yn gwisgo dillad llac – maent yn gallu mynd ar dân yn hawdd.
- Cadwch lieiniau te a chlytiau i ffwrrdd oddi wrth y popty a'r hob.
- Mae dyfeisiau gwreichion yn fwy diogel na matsis neu danwyr i gynnu popty nwy am nad oes ganddynt fflam noeth.
- Gwnewch yn siŵr bod y popty wedi ei diffodd ar ôl gorffen coginio. Cymerwch ofal gydag offer trydanol.
- Cadwch offer trydanol (gwifrau a dyfeisiau) draw oddi wrth ddŵr.
- Gwiriwch fod y tostiwr yn lân ac wedi ei osod i ffwrrdd oddi wrth lenni a rholiau papur cegin.
- Cadwch y ffwrn, yr hob a'r gridyll yn lân ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda. Gall haen ar ôl haen o fraster gronni a chynnu tân.

Peidiwch â rhoi unrhyw fetel yn y microdon.



Awgrym da

Cadwch bethau allan o gyrraedd



Yn y gegin

Ffrio saim dwfn

- Cymerwch ofal wrth goginio ag olew poeth – mae'n cynnau'n hawdd.
- Gwnewch yn siŵr bod y bwyd yn sych cyn i chi ei roi mewn olew poeth fel nad yw'n tasgu.
- Os yw'r olew yn dechrau mygu – mae'n rhy boeth. Diffoddwch y gwres a gadewch iddo oeri.
- Defnyddiwch ffriwr saim dwfn trydanol sy'n cael ei reoli gan thermostat. Nid ydynt yn gorgynhesu.

Beth i'w wneud os yw padell yn mynd ar dân

- Peidiwch â chymryd risg. Diffoddwch y gwres os yw'n ddiogel i wneud hynny. Peidiwch byth â thaflu dŵr dros y badell.
- Peidiwch â mynd i'r afael â'r tân ar eich pen eich hun.

**EWCH ALLAN
ARHOSWCH ALLAN
A FFONIWCH
C999**



Awgrym da



Byddwch yn ofalus gydag olew poeth

Offer Trydanol

Sut i osgoi tanau offer trydanol

- Gwiriwch eich bod yn defnyddio'r ffiws iawn er mwyn atal offer trydanol rhag gorgynhesu.
- Gwnewch yn siŵr bod gan yr offer trydanol nod diogelwch Prydeinig neu Ewropeaidd pan rydych yn ei brynu.
- Dylai offer penodol, fel peiriannau golchi dillad, gael plwg sengl yn unig ar eu cyfer, gan eu bod yn defnyddio llawer o ynni.
- Ceisiwch gadw at un plwg i un soced.



**Peidiwch â
gorlwytho
peiriannau na
socedi**

**Mae terfynau ar faint o
ampiau mae ceblau estyn
ac addaswyr yn gallu eu
cymryd. Cymerwch ofal
rhag eu gorlwytho er mwyn
lleihau'r risg o dân.**

**Mae dyfeisiau yn defnyddio
gwahanol gryfderau o ynni
– er enghraifft, gallai teledu
ddefnyddio plwg 3amp a
sugrwr llwch 5amp.**

Dysgwch y terfynau!

$$\begin{array}{ccccccc} 5 & + & 5 & + & 3 & = & 13 \\ \text{AMP} & & \text{AMP} & & \text{AMP} & & \text{AMP} \end{array}$$




Cadwch offer trydanol yn lân ac mewn cyflwr gweithio da er mwyn eu hatal rhag cychwyn tân.

- Cadwch lygad allan am arwyddion o wifrau peryglus neu rydd fel:
 - marciau llosg
 - plygiau a socedi poeth
 - ffiwsys sy'n chwythu
 - torwyr cylched sydd yn diffodd heb reswm
 - goleuadau sy'n fflachio.
- Gwiriwch a newidiwch unrhyw hen geblau a gwifrau yn enwedig os ydynt wedi eu cuddio – y tu ôl i ddodrefn neu o dan garpedi a matiau.
- Mae tynnu plygiau offer allan o'u socedi yn helpu i leihau'r risg o dân.
- Datgysylltwch blygiau offer os nad ydych yn eu defnyddio neu cyn mynd i'r gwely.

Dodrefn

- Gwnewch yn siŵr bod gan eich dodrefn label parhaol gwrthsefyll tân.



Defnyddio blanced trydan

- Storiwch blancedi trydan yn fflat, wedi eu rhoio er mwyn osgoi difrodi'r gwifrau mewnol.
- Datgysylltwch blygiau blancedi trydan cyn i chi fynd i mewn i'r gwely, oni bai fod ganddynt reolydd thermostat sy'n golygu y gallwch eu defnyddio'n ddiogel dros nos.
- Ceisiwch osgoi prynu blancedi trydan ail-law a gwiriwch nhw'n rheolaidd am ôl traul.

Gwresogyddion symudol

- Ceisiwch osod gwresogyddion yn sownd i wal er mwyn eu hatal rhag syrthio drosodd.
- Cadwch wresogyddion oddi wrth lenni a dodrefn a pheidiwch byth â'u defnyddio i sychu dillad.

Sigaréts

Diffoddwch eich sigarét yn llwyr a chael gwared â nhw'n ofalus. Diffoddwch nhw – yn llwyr!

- Peidiwch ag ysmygu yn y gwely.
- Defnyddiwch flwch llwch iawn – peidiwch byth â defnyddio bagged papur gwastraff.
- Gwnewch yn siŵr nad yw eich blwch llwch yn gallu syrthio a'i fod wedi ei wneud allan o ddeunydd na fydd yn llosgi.
- Peidiwch â gadael sigarét, sigâr neu bib ynghyn ar hyd y lle. Byddai'n ddigon hawdd iddynt syrthio i'r llawr a chychwyn tân.

- Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych yn ysmygu pan rydych yn flinedig, yn cymryd cyffuriau ar bresgripsiwn neu os ydych wedi bod yn yfed. Gallech syrthio i gysgu a rhoi eich gwely neu eich sofffa ar dân.
- Cadwch fatsis a thanwyr allan o gyrraedd plant.
- Ystyriwch brynu tanwyr a blychau matsis y mae'n anodd i blant eu defnyddio.

Mae blychau matsis yn cynnwys y rhybudd hwn erbyn hyn.



Awgrym da



Diffoddwch nhw – yn llwyr!

Canhwyllau

Gwnewch yn siŵr bod canhwyllau wedi cael eu rhoi mewn pethau dal kannwyll priodol ac ymhell oddi wrth unrhyw ddefnyddiau a allai fynd ar dân - fel llenni.

- Diffoddwch y canhwyllau wrth adael yr ystafell, a gwnewch yn siŵr eu bod wedi eu diffodd yn llwyr yn y nos.
- Defnyddiwch ddiffoddwr canhwyllau neu lwy i ddiffodd canhwyllau. Mae'n fwy diogel na chwythu gan y gall gwreichion hedfan.
- Ni ddylid gadael plant ar eu pen eu hunain gyda chanhwyllau.



**Byddwch yn ofalus
gyda chanhwyllau**



CYNLLUNIWCH

LWYBR DIANC

DIOGEL

Gosod larwm mwg yw'r cam hanfodol cyntaf i ddiogelu eich hun rhag tân. Ond beth fydddech yn ei wneud petai'n canu yn y nos?

Mae'r adran hon yn eich helpu i lunio cynllun yn barod ar gyfer argyfwng.

Byddwch yn barod drwy lunio llwybr dianc

- Cynlluniwch lwybr dianc a gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod sut i ddianc.
- Gwnewch yn siŵr bod allanfeydd yn glir.
- Y ffordd orau yw'r ffordd arferol i mewn ac allan o'ch cartref.
- Meddyliwch am lwybr dianc arall rhag ofn bod yr un cyntaf wedi ei rwystro.
- Cymerwch ychydig o funudau i ymarfer eich llwybr dianc.
- Adolygwch eich cynlluniau os yw cynllun eich cartref yn newid.


**Cadwch allweddi
drysau a ffenestri
mewn lle y gall pawb
ddod o hyd iddynt**



Awgrym da



**Lluniwch lwybr
dianc**



Beth i'w wneud os oes tân

Peidiwch chi â mynd i'r afael â thân. Gadewch y gwaith hwn i'r gweithwyr proffesiynol.

- Cadwch eich pen a gweithredwch ar unwaith, anfonwch bawb allan cyn gynted ag y bo modd.
- Peidiwch â gwastraffu amser yn edrych beth sydd wedi digwydd na chwilio am eich pethau gwerthfawr.
- Os oes mwg – cadwch yn isel i'r llawr lle mae'r aer yn gliriach.
- Cyn agor drws – gwiriwch a yw'n gynnes. Os yw'n gynnes, peidiwch â'i agor – bydd tân ar yr ochr arall.
- Ffoniwch 999 cyn gynted ag yr ydych allan o'r adeilad. Mae galwadau 999 am ddim.

Awgrym da



Ewch allan, arhoswch allan a ffoniwch 999

Beth i'w wneud os yw eich dillad ar dân

- Peidiwch â rhedeg o amgylch y lle, bydd hyn yn gwneud y fflamau'n waeth.
- Gorweddwch i lawr a rholiwch ar y llawr. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd i'r tân ledaenu.
- Mygwch y fflamau â defnydd trwm, fel cot neu flanced.
- Cofiwch, stopiwch, disgynnwch a rholiwch !



STOPIO!



DISGYN!




RHOLIO!

Beth i'w wneud os bydd rhwystrau ar eich llwybr dianc


- Os nad ydych yn gallu dianc, ewch â phawb i un ystafell, yn ddelfrydol un sydd â ffenestr a ffôn.
- Rhowch ddillad gwely o amgylch gwaelod y drws i rwystro'r mwg, wedyn agorwch y ffenestr a gwaeddwch "HELP! TÂN!".
- Os ydych ar y llawr gwaelod efallai y gallech ddianc allan drwy'r ffenestr.
- Defnyddiwch ddillad gwely i glustogi eich cwmp a gostyngwch eich hun i lawr yn ofalus. Peidiwch â neidio.

Os nad ydych yn gallu agor ffenestr, torrwch y gwydr yn y gornel waelod. Gwnewch yr ymylon miniog yn ddiogel gyda thywel neu flanced.



Sut i ddianc o adeilad uchel

- Peidiwch â defnyddio lifftiau a balconïau os oes tân.
- Mae'n hawdd drysu yn y mwg, felly rhifwch faint o ddrysau sydd angen i chi fynd drwyddynt i gyrraedd y grisïau.
- Gwiriwch nad oes rhywbeth yn y coridorau neu ar y grisïau a allai fynd ar dân – fel bocsys neu sbwriel.
- Gwnewch yn siŵr nad yw drysau at y grisïau yn cael eu cloi.
- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn yr adeilad yn gwybod ble mae'r larymau tân.
- Dylech gael larwm mwg ar gyfer eich cartref eich hun, hyd yn oed os oes systemau rhybuddio yn y bloc.





GWNEWCH YN SIŴR BOD POPETH YN DDIOGEL CYN MYND I'CH GWELY




Rydych mewn mwy o
risg o dân pan rydych
yn cysgu, felly mae'n
syniad da gwneud yn
siŵr bod popeth yn
ddiogel yn eich cartref
cyn i chi fynd i'r gwely




Rhestr wirio

- ☒ Caewch y drysau tu mewn yn ystod y nos er mwyn atal tân rhag lledaenu.
- ☒ Diffoddwch a datgysylltwch blygiau offer trydanol oni bai eu bod wedi cael eu cynllunio i'w gadael ymlaen – er enghraifft, eich rhewgell. Gwiriwch fod eich popty wedi ei ddiffodd.
- ☒ Peidiwch â gadael eich peiriant golchi ymlaen.
- ☒ Diffoddwch wresogyddion a rhowch gardiau tân yn eu lle.
- ☒ Diffoddwch ganhwyllau a sigarêts yn llwyr.
- ☒ Gwnewch yn siŵr bod allanfeydd yn glir.
- ☒ Cadwch allweddi drysau a ffenestri mewn lle y gall pawb ddod o hyd iddynt.



**Caewch y drysau tu
mewn yn y nos**



MAE LARYMAU MWG YN
ACHUB
BYWYDAU

Am hymweliad Diogel ac lach ac am ddim, galwch:
0800 169 1234 neu tecstiwch **07756 847123**

Neu ymwelwch â:

www.decymru-tan.gov.uk
www.tancgc.gov.uk
www.gwastan-gogcymru.org.uk